# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 7 Ionawr 2020

Amser y cyfarfod: 13.30

## 250(v3)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit (mewn perthynas â'i gyfrifoldebau fel "swyddog cyfreithiol")

(30 munud)

Gweld y Cwestiynau

## 3 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 4 Dadl ar Ddatganiad: Cyllideb Ddrafft 2020-21

(90 munud)

## 5 Datganiad gan Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Bolisi Masnach

(45 munud)

## 6 Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2020

(15 munud)

**NDM7223** – Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2020 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Tachwedd 2019.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## 7 Dadl: Egwyddorion Cyffredinol y Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru)

(60 munud)

**NDM7222** – Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol y Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru).

Gosodwyd y Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad ar 8 Gorffennaf 2019;

Gosodwyd adroddiad Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar y Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) gerbron y Cynulliad ar 6 Rhagfyr 2019.

## 8 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 8 Ionawr 2020

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 02/01/2020 i'w hateb ar 07/01/2020

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Prif Weinidog

**Gareth Bennett** *Canol De Cymru*

1 OAQ54892

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi busnesau yng Nghanol De Cymru?

**Lynne Neagle** *Torfaen*

2 OAQ54862

**(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymateb i'r adolygiad diweddar o farwolaethau plant a phobl ifanc drwy hunanladdiad neu achos honedig o hunanladdiad?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

3 OAQ54889

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Phrif Weinidog y DU ynghylch y Gronfa Ffyniant Gyffredin?

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

4 OAQ54890

**(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r goblygiadau i Gymru sy'n deillio o Fil yr UE (Cytundeb Ymadael)?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

5 OAQ54864

**(w)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi diweddariad ar y ddarpariaeth gofal cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg?

**Mohammad Asghar** *Dwyrain De Cymru*

6 OAQ54861

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am lefelau staff nyrsio yng Nghymru?

**Mick Antoniw** *Pontypridd*

7 OAQ54876

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Phrif Weinidog y DU ynghylch sicrhau cyllid teg i Gymru?

**Angela Burns** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

8 OAQ54880

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y gwasanaeth iechyd dros y deuddeg mis nesaf?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

9 OAQ54855

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am adeiladu tai cyngor yng Nghymru?

**Neil Hamilton** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

10 OAQ54891

**(e)**

Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch gweithredu'r penderfyniad a wnaed yn refferendwm yr UE?

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

11 OAQ54869

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyllid a ddarperir ar gyfer Cyngor Sir y Fflint?

**Caroline Jones** *Gorllewin De Cymru*

12 OAQ54858

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu blaenoriaethau economaidd Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020?

## Cwnsler Cyffredinol

**David Melding** *Canol De Cymru*

1 OAQ54884

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda swyddogion eraill y gyfraith yn y DU ar ffyrdd o gryfhau Undeb Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon?

**Mick Antoniw** *Pontypridd*

2 OAQ54877

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda swyddogion cyfatebol yn Llywodraeth y DU mewn perthynas â Deddf Cymru 2017?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

3 OAQ54863

**(w)**

Pa drafodaethau mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi eu cael hefo'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip ynglŷn â chydraddoldeb yn y gyfraith, yn sgil adroddiad Comisiwn Thomas?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

4 OAQ54885

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda swyddogion cyfatebol yn Llywodraeth y DU ynghylch rôl Goruchaf Lys y DU yn y dyfodol?

**David Melding** *Canol De Cymru*

5 OAQ54883

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o bwerau deddfwriaethol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â lesddeiliadaeth ar dai?

**Dawn Bowden** *Merthyr Tudful a Rhymni*

6 OAQ54872

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda'r sector cyfreithiol ynghylch effaith y Gronfa Ffyniant Gyffredin?